# YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

Gwybodaeth sydd i gael ei Chyflenwi ar Gais i Gofrestru fel Person sy'n Cynnal Practis Deintyddol Preifat

## RHAN 1

### Gwybodaeth am y ceisydd

**1.** Pan fo'r ceisydd yn unigolyn—

(a) enw llawn, dyddiad geni, cyfeiriad presennol, rhif ffôn a chyfeiriad post electronig (os oes un) y person cyfrifol;

(b) manylion am gymwysterau proffesiynol neu dechnegol y person cyfrifol a'i brofiad o gynnal practis deintyddol preifat, i'r graddau y mae'r cymwysterau hynny a'r profiad hwnnw yn berthnasol i ddarparu gwasanaethau i bersonau y mae gwasanaethau i gael eu darparu iddynt yn y practis deintyddol preifat;

(c) manylion am hanes cyflogaeth y person cyfrifol, gan gynnwys enw a chyfeiriad ei gyflogwr presennol ac enw a chyfeiriad unrhyw gyflogwyr blaenorol;

(d) manylion am unrhyw fusnes y mae'r person cyfrifol yn ei gynnal neu wedi ei gynnal;

(e) manylion am unrhyw safle arall neu safleoedd eraill y mae'r person cyfrifol yn cynnal, neu wedi cynnal, practis deintyddol preifat mewn cysylltiad ag ef neu â hwy;

(f) enwau a chyfeiriadau dau ganolwr—

(i) nad ydynt yn berthnasau i'r person cyfrifol;

(ii) y mae'r ddau ohonynt yn gallu darparu geirda o ran cymhwysedd y person cyfrifol i gynnal practis deintyddol preifat o'r un disgrifiad â'r practis deintyddol preifat; a

(iii) y mae un ohonynt wedi cyflogi'r person cyfrifol am gyfnod o 3 mis o leiaf,

ond nid yw'r gofyniad am enw a chyfeiriad canolwr sydd wedi cyflogi'r person cyfrifol am gyfnod o 3 mis o leiaf yn gymwys pan fo'n anymarferol cael geirda oddi wrth berson sy'n bodloni'r gofyniad hwnnw;

(g) os yw'r person cyfrifol yn ddeintydd neu'n broffesiynolyn gofal deintyddol—

(i) rhif cofrestru proffesiynol y person cyfrifol; a

(ii) manylion am unrhyw amodau a osodwyd ar gofrestriad proffesiynol y person cyfrifol neu wrth ei gynnwys ar restr perfformwyr deintyddol;

(h) os yw'r ceisydd yn bwriadu cynnal y practis deintyddol preifat mewn partneriaeth ag eraill, yr wybodaeth a bennir yn is-baragraffau (a) i (g) o'r paragraff hwn mewn perthynas â phob partner i'r ceisydd.

**2.** Pan fo'r ceisydd yn bartneriaeth—

(a) enw a chyfeiriad y bartneriaeth;

(b) mewn perthynas â phob aelod o'r bartneriaeth, yr wybodaeth a bennir ym mharagraff 1(a) i (g).

**3.** Pan fo'r ceisydd yn sefydliad—

(a) enw'r sefydliad a chyfeiriad swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa'r sefydliad;

(b) enw llawn, dyddiad geni, cyfeiriad presennol a rhif ffôn y person cyfrifol;

(c) manylion am gymwysterau proffesiynol neu dechnegol y person cyfrifol a'i brofiad o gynnal practis deintyddol preifat, i'r graddau y mae'r cymwysterau hynny a'r profiad hwnnw yn berthnasol i ddarparu gwasanaethau i bersonau y mae gwasanaethau i gael eu darparu iddynt yn y practis deintyddol preifat;

(d) os yw'r sefydliad yn is-gwmni i gwmni daliannol, enw a chyfeiriad swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa'r cwmni daliannol ac unrhyw is-gwmni arall i'r cwmni daliannol hwnnw.

**4.** Ym mhob achos—

(a) datganiad ynghylch a yw'r person cyfrifol wedi cael ei ddyfarnu'n fethdalwr, yn berson y gwnaed gorchymyn rhyddhau o ddyled mewn cysylltiad ag ef neu y gorchmynnwyd secwestru ei ystad, neu a yw'r person cyfrifol wedi gwneud compównd neu drefniant â'i gredydwyr, neu wedi rhoi gweithred ymddiriedolaeth ar eu cyfer;

(b) datganiad ynghylch gallu'r ceisydd i sicrhau hyfywedd ariannol y practis deintyddol preifat at ddiben cyflawni nodau ac amcanion y practis deintyddol preifat a nodir yn ei ddatganiad o ddiben.